**CYNGOR CYMUNED TROEDYRAUR**

**COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR MAI 2[il], 2023**

**Yn NEUADD BENTREF RHYDLEWIS am 7.30 y.h.**

| | | |
|---|---|---|
| **Yn bresennol** | Cyng. Ceri Jones (cadeirydd) | Cyng. Maldwyn Lewis |
| | Cyng. Sharon Thomas | Cyng. Emyr Jones |
| | Cyng. Mark Davies | Cyng. Rob Jones |
| | Cyng. Sian Williams | Cyng. Carol Davies |
| | Cyng. Roger Davies | |

**Clerc** Rhian Jones

| Eitem ar yr Agenda | Gweithredu | Gan bwy | Erbyn pryd |
|---|---|---|---|
| 1 . Ymddiheuriadau | Cyng. Llyr Evans.<br>( Nid oedd y Cyng.Teifi Evans yn bresennol ac nid oedd wedi anfon Ymddiheuriad.) | | |
| 2. Datgan Diddordeb. | DIM | | |
| 3. Cofnidion y Cyfarfod Diwethaf | Roedd pob cynghorydd wedi derbyn copi o gofnodion cyfarfod mis Ebrill. | | |
| 4.Materion yn Codi | Potiau Blodau – Diolchwyd i'r Cynghorwyr Rob Jones, Ceri Jones, Maldwyn Lewis ac Emyr Jones am ddosbarthu'r potiau i'w mannau priodol. Mae angen cadw rhestr o leoliadau'r potiau.<br>Mae'r Cyng Ceri Jones wedi trafod blodau gyda Roger o Trefhedyn. Cynigiodd y Cyng.Sian Williams gysylltu a Trefhedyn i drefnu casglu'r blodau a bydd Y Cynghorwyr Sian Williams a Sharon Thomas yn mynd ati i'w plannu. Os bydd rhywun arall ar gael, croeso iddynt helpu. Wedi gwneud hyn medrwn setlo'r bil gyda Trefhedyn am y cyfan.<br>Codwyd y byddai angen cynnal y potiau ac a fyddai modd cael cynrychiolwyr o bob pentref i wneud hyn? Bu bach o ansicrwydd sut fyddai'r pentrefwyr yn ymateb, ac am eleni, efallai mae'r Cynghorwyr fyddai'n gorfod eu cynnal a'u dyfrio.<br>Diolchodd y Cyng.Maldwyn Lewis yn arbennig i'r Cynghorwyr Ceri Jones a Rob Jones am ddod a tractor, treilar ayyb i allu gosod y potiau trwm yma yn eu lle.<br><br>Cododd y Cyng.Sian Williams gwestiwn am leoliad potaiu Coedybryn. Holodd a fyddai modd ail-leoli'r pot sydd ger yr arhosfan bws a'i roi ger arwydd y pentref ar bwys Brynhywel. Roedd y lleoliad hwn dan ystyriaeth blaenorol ond gan ei fod ar eiddo preifat wedi cael ei hepgor. Oherwydd pwysau'r potiau nodwyd efallai byddai'n well eu gadael am y tro a gosod un arall yn flwyddyn nesaf.<br><br>Nodwyd hefyd fod un pot wedi cael ei osod ger arwydd Capel Cynon ger y cae pel droed gan fod blodau eisioes ger arwyddio rhai o'r pentrefi.<br>Nodwyd fod lleoliad ambell bot braidd yn anweladwy ar hyn o bryd, ond | | |

gyda blodau lliwgar  byddant yn amlycach. Mae Trefhedyn yn mynd i gael blodau ar gyfer yr haf yn barod ond hefyd nodwyd y byddai'n braf gallu plannu cennin pedr tua mis Hydref erbyn y Gwanwyn.

De-Fib Penrhiwpal – nodwyd nad oedd yn gweitho ac mae y Cyng.Maldwyn Lewis eisioes wedi cysylltu a Calonnau Cymru ac yn disgwyl iddynt ymateb.  Nid yw wedi derbyn cadarnhâd am y bocsys newydd chwaith. Nodwyd fod yr un sydd ym Mhenrhiwpâl dros dro yn gweithio.
Nododd y Cyng.Mark Davies fod yna De-fibs newydd ar y farchnad, rhai llawer llai o faint a'u pris yw £275 o ProTrainings.co.uk, ond rhaid eu disodli bob 2 flynedd.

Cinio Blynyddol – Byddai yn braf cael gwahodd y cyn-glerc Margaret Sinnett Jones i'r ginio. Y Clerc in gysylltu gyda hi.

5. Cadarnhau'r Cofnodion Diwethaf

Cadarnhawyd y cofnodion i fod yn gywir gan y Cyng.Rog Davies ac eiliwyd gan y Cyng.Mark Davies.

6. Materion y Cynghorydd Sir

Bu'n fraint ac anrhydedd i'r Cyng.Maldwyn Lewis gael agor 2 safle 3G yn y Sir yn ddiweddar – un yn Aberteifi a'r llall yn Ysgol Bro Sio Cwilt. Rhannol arianwyd hwy gan y Sir a chwmni o Fryste. Mae yna safle arall ar y gweill ar hyn o bryd yn Llambed. Braf gweld y cyfleusterau newydd a diddorol fod cymaint o ddefnydd yn cael eu gwneud ohonynt gan ysgolion a chlybiau lleol.

I ddathlu'r Coroni mae gwasanaeth arbennig Dydd Sul yn Eglwys Gadeiriol Tŷ Ddewi ac mae'r Cyng.Maldwyn Lewis yn mynychu.

Mae Cyfarfod Blynyddol Cyngor Sir Ceredigion canol mis Mai.

7. Gohebiaeth.

Oherwydd sawl gwyl y banc ym mis Mai mae'r gwasanaeth casglu sbwriel wedi newid ambell ddyddiad, ac mae rhain eisioes wedi cael eu arddangos ar ein gwefan a thudalen Facebook.

"Hanfu experience" – mae Jasmine yn ceisio cynnal arddangosfa yn neuadd Rhydlewis ar Fai 28ain. Mae ei merch, 11 oed yn gobeithio yn gweithio ar brosiect i ddangos budd 'Arts for Wellbeing'. Maent yn symud o amgylch yr ardaloedd gyda gweithdŷ am Gelfyddydau Tsienieaidd, Japaneaidd a Chorea. Eu gobaith oedd cael  cyfraniad at y costau. Wedi tipyn o drafod cynigiodd Y Cyng.Rob Jones ein bod yn cynnig talu at gostau llogi'r Neuadd, sef £50 ac eiliwyd gan y Cyng.Mark Davies. Trwy wneud hyn byddwn yn cefnogi'r achos a bydd ein cyfraniad yn aros yn lleol.
( angen i'r Clerc anfon llythyr at Rob Taylor, ysgrifennydd Neuadd Rhydlewis ac at Jasmine yn esbonio sut byddwn fel Cyngor Cymuned yn cyfrannu.)

Derbyniwyd gwahoddiad i gyfarfod 'Ffiniau' sy'n cael ei gynnal nos Fawrth nesaf, noson ein cinio blynyddol. Angen i'r Clerc anfod e-bost yn ymddiheuro fod y noson yma yn anghyfleus i ni fel Cynghorwyr.

8. Cynllunio. Derbyniwyd un cais cynllunio yng Nghroeslan i adeiladu conservatory 3m x2.4m o flaen byngalo. Oherwydd ei leoliad rhaid cael cais cynllunio. Nid oedd gennym wrthwynebiad, ond iddynt ddilyn canllawiau'r Cyngor.

9. Cyllid Audit – Y Clerc wedi cysylltu a Gwyn Jones ac aros i weld beth fydd ei Ymateb er mwyn gallu symud ymlaen. Efallai os na all Gwyn Jones gynnig Ateb, bydd rhaid talu'r banc am gopi o'r 'statements' sydd ar goll.

Llofnodwyr – mae angen ychwanegu Cynghorwyr fel Llofnodwyr. Cynigiwyd y Cyng Sian Williams a'r Cyng.Carol Davies. Mae angen I'r Clerc gysylltu â'r banc i gael mandates iddynt arwyddo.

Cyfraniad McMillan – angen i'r Clerc gysylltu a nhw i nodi fod ffurflen gais ar y wefan er mwyn iddynt lenwi a chaiff eu cais eu trafod yng nghyfarfod mis Ionawr.

Cyfraniad y gystadleuaeth aredig – Cysylltu a nhw I nodi ein bod yn bwriadu cyfrannu ond angen llenwi'r ffurflen swyddogol o'r wefan.

.

Cododd y Clerc nad oed 2 awr yn ddigon o amser i gyfieithu'r Cofnodion a chytunwyd i godi'r oriau i 3 awr y mis.

Arwyddodd y Cyng Emyr Jones a'r Cyng Roger Davies y sieciau.

| | | |
|---|---|---|
| **Taliadau** - | HMRC - £43.40 | 001704 |
| | Cyflog y Clerc - £173.80 | 001705 |
| | Llogi Neuadd Ffostrasol - £50.00 | 001703 |

10.Materion Ardal.

PENRHIWPÂL – Un o'r trigolion yn holi a oes modd gosod blwch halen ar Sgwar Penrhiwpâl. Y clerc i gysylltu â'r Sir ( CLIC).

Arwydd buwch wedi mynd ar goll rhwng Penrhiwpal a Choedybryn.

BRONGEST - Mae angen golchi y bocs hysbysebu, Y Clerc i wneud tro nesaf mae'n

gosod Agenda yn y bocs.

Mae angen sicrhau fod y bocs De-fib yn cael ei gynnal yn rheolaidd.
( trafodeth mis nesaf)

COEDYBRYN - Mae angen cael 2 bris am ail wneud tô yr arhosfan bws.

Mae pobl y Pentref yn holi am fwy o ganllawiau am y 20mya. Mae posteri eisioes wedi cael eu arddangos yn y pentrefi fydd yn cael eu heffeithio. Mae hwn yn cael ei ariannu gan y Senedd.

Dydd Sadwrn diwethaf cynhaliwyd arddangosfa gwenyn yn Neuadd y Pentraf, ac roedd llawer yn cwyno am y Parcio. Bu'r parcio'n broblem a diolchwyd i Iwan Evans am agor rhan o'l gae i alluogi pobl i barcio. Mae angen sicrhau fod paratoadu mewn lle ar gyfer y dyfodol, ac angen llythyr i bwy sy'n trefnu'r flwyddyn nesaf.

MAESLLYN - Nodwyd fod rhywun wedi dwyn arwydd Pentref Maesllyn sydd ar y troeon uwchlaw Brynteg. Ar yr un pryd cododd sawl Cynghorydd fod arwyddion yn yr ardal wedi diflannu – un buwch ger Nantgwylan, Penrhiwpal, arwydd Pentref Coedybryn ger Blaenbachcrydd ac arwydd Croeslan ger Tower Hill.

FFOSTRASOL – Mae twll arall wedi ymddangos yn y ffordd ar y troad tuag at Plwmp. Mae ger y siop ar y marciau gwyn ar y gyffordd. Cysylltu gyda CLIC (SA44 4TD)

11. Cyfarfod nesaf – Bydd y cyfarfod nesaf yn Neuadd Ffostrasol am 7:30 ar Fehefin 6ed.

AGENDA

- Diweddariad am yr Audit.
- Diweddariad am Hanfu experience/lLlogi'r Neuadd
- Cynnal y Bocsys De-fib

Gan nad oedd dim ymhellach i drafod tynnodd y Cadeirydd y cyfarfod i ben am 9:50yh.